



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd Diwygiedig yng Nghymru (Mawrth 2021)



Rhagair y Gweinidogion

Mae pandemig y coronafeirws wedi troi ein bywydau i gyd wyneb i waered. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae pawb yng Nghymru wedi aberthu i helpu i ddiogelu eu hunain a'u teuluoedd ac i helpu i reoli'r coronafeirws.

Mae hwn yn feirws creulon – mae llawer gormod o deuluoedd wedi colli anwyliaid, a gwaetha'r modd rydym yn gwybod y bydd llawer mwy o bobl yn mynd yn ddifrifol wael ac yn marw cyn i'r pandemig ddod i ben. Ond mae'r ffordd y mae pobl a chymunedau wedi cyd-dynnu ledled Cymru, ac wedi dilyn y rheolau, wedi achub llawer mwy o fywydau yn ddi-os.

Rydym nawr yn dechrau ar gyfnod tyngedfennol yn y pandemig. Mae llygedyn o obaith wrth inni nesáu at ddiwedd ail don hir a chaled, diolch i ymdrechion anhygoel gwyddonwyr ac ymchwilwyr ar draws y byd i ddatblygu brechlynnau effeithiol. Mae ein rhaglen frechu ragorol wedi sicrhau bod brechlynnau ar gael yn rhyfeddol o gyflym i'r bobl yn y grwpiau sydd fwyaf agored i niwed.

Ond, er bod ein rhaglen frechu yn mynd rhagddi, rydym yn wynebu feirws gwahanol iawn yng Nghymru erbyn hyn. Yr amrywiolyn heintus iawn, a nodwyd gyntaf yng Nghaint, yw'r un mwyaf cyffredin ym mhob rhan o Gymru erbyn hyn.

Mae hyn yn golygu bod y camau amddiffynnol rydym i gyd wedi dod i arfer â nhw yn bwysicach nag erioed – cael prawf a hunanyngysu pan fydd gennym symptomau; cadw pellter oddi wrth eraill; peidio â chymysgu dan do; osgoi torfeydd; golchi ein dwylo'n rheolaidd a gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau lle na allwn osgoi bod yn agos at ein gilydd.

Nid yw'r pandemig ar ben – mae'r gwanwyn a'r haf yn rhoi gobaith inni am fwy o ryddid, wrth i'r cyfraddau heintio ostwng ac wrth i fwy o bobl gael eu brechu. Ond mae'n rhaid inni fod yn ofalus – allwn ni ddim rhuthro'r broses o lacio'r cyfyngiadau a pheri risg o don arall o'r feirws.

Mae gwaith modelu gwyddonol o ffynonellau amrywiol yn dangos ei bod yn debygol iawn y bydd trydedd don o heintiadau yn ddiweddarach eleni.

Bydd yr hyn sy'n digwydd rhwng nawr a hynny yn pennu pa mor fawr fydd y don honno a faint o bobl fydd mewn perygl o salwch difrifol a faint fydd yn marw.

Bydd ein rhaglen frechu lwyddiannus yn helpu i leihau nifer y bobl a fydd yn dioddef salwch difrifol ac yn marw o COVID-19, ond er bod ein rhaglen frechu yn mynd rhagddi yn rhyfeddol o gyflym, a niferoedd mawr o bobl yn dod i gael y brechiad, bydd llawer o bobl o hyd na fyddant yn cael eu hamddiffyn.

Y llynedd fe wnaethom lwyddo i gyfyngu ar y feirws dros fisoedd yr haf drwy gyfuniad o lacio'r rheolau'n raddol a rhagofalon sylfaenol, ond yna gwelwyd achosion newydd yn cael eu mewnfario wrth i bobl ddychwelyd o'u gwyliau mewn gwledydd tramor.


Mae teithio rhyngwladol yn dal yn risg – nid yn unig oherwydd y posibilrwydd y bydd achosion newydd o'r feirws yn cael eu mewnfario i Gymru, ond hefyd oherwydd y gallai straeniau ac amrywiolynnau newydd gyrraedd Cymru sy'n gallu gwrthsefyll ein brechlynnau. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i reoli'r risg hon. Gallai hyn olygu cyfyngiadau parhaus ar deithio rhyngwladol er mwyn sicrhau bod ein rhaglen frechu yn parhau'n effeithiol.

Nid oes arnom eisiau i wyliau pobl mewn gwledydd tramor yn ystod yr haf arwain at don arall o heintiadau nac at aeaf o gyfyngiadau symud.

Mae'r diweddariad hwn o'r *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws* yn rhoi sylw i'r rhaglen frechu a'r amrywiolyn Caint heintus, ac yn amlinellu sut y byddwn yn symud drwy'r lefelau rhybudd a sut y gallwn helpu pobl a busnesau i gynllunio ar gyfer y dyfodol, wrth inni barhau â'n dull gofalus o lacio'r cyfyngiadau presennol.

Byddwn yn ailedrych ar y cynllun hwn ar ôl i'r brechiad gael ei gynnig i bob oedolyn sy'n gymwys – sef erbyn diwedd Gorffennaf ar hyn o bryd – pan fydd mwy o dystiolaeth a data ar gael am ei effaith.

Ein gobaith yw y bydd hyn yn rhoi llwybr inni allu llacio'r holl gyfyngiadau ond, ar hyn o bryd, mae'n rhy gynnar i wneud addewid mor bendant â hynny. Mae'r rhaglen frechu yn rhoi gobaith inni ein bod wedi gweld y gwaethaf o'r pandemig erbyn hyn a bod dyfodol mwy disglair o'n blaenau.



Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru



Vaughan Gething AS
Y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyd-destun

Cefndir

Ym mis Ebrill 2020, nododd Llywodraeth Cymru ein blaenoriaethau yn *Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: fframwaith ar gyfer adferiad*¹. Roedd y ddogfen hon yn disgrifio'r data a fyddai'n cael eu hystyried, a'r egwyddorion a fyddai'n cael eu defnyddio, wrth adolygu'r cyfyngiadau. Mae'r rhain yn parhau i fod yn ganolog i'n hystyriaethau yn awr fel y maent wedi bod drwy gydol y pandemig. Mae hyn yn golygu deall nid yn unig yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar iechyd, ond hefyd ystyried cydraddoldeb, lles, effeithiau economaidd, a ffactorau eraill.

Ym mis Mai 2020, ehangwyd ar y fframwaith gan gyflwyno dull seiliedig ar oleuadau traffig ar gyfer llacio'r cyfyngiadau a oedd mewn grym yn ystod ton gyntaf y pandemig (*Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi: dal i drafod*²).

Roedd y dull hwn yn symud rhwng "cyfyngiadau "caeth", i gyfnodau "coch", "oren" a "gwyrd" mewn gwahanol rannau o'n bywydau – gweld teulu a ffrindiau, teithio, addysg a gofal plant. Yn y cyfnod hwnnw o'r pandemig roedd llawer o ansicrwydd ynghylch y feirws ac nid oedd effeithiolrwydd ein mesurau lliniaru yn glir. Roedd y dull yn un gofalus a chodwyd cyfyngiadau yn raddol, yn seiliedig ar y dystiolaeth orau a oedd ar gael ar y pryd.

Ym mis Awst 2020, cyhoeddwyd y ddogfen *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws ar gyfer Cymru*³. Roedd y cynllun hwn yn amlinellu'r dull o reoli'r coronafeirws yng Nghymru – o atal yr haint, i gamau gweithredu lleol er mwyn rheoli brigiadau o achosion ac achosion lluosog, hyd at fesurau ar gyfer Cymru gyfan. Roedd y cynllun yn cydnabod rôl hanfodol ymatebion lleol a rhanbarthol er mwyn osgoi'r angen am weithredu cenedlaethol mwy dramatig.

Roedd y mesurau Cymru gyfan yn y *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws* yn nodi'r angen posibl i dynhau'r cyfyngiadau dros gyfnod y gaeaf. Mae'r dull eang a nodir yn y *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws* yn berthnasol o hyd, yn enwedig yr angen i bob un ohonom chwarae ein rhan drwy gymryd camau i atal y feirws. Bydd cyfrifoldeb personol i ddal ati i fabwysiadu mathau o ymddygiad i ddiogelu ein gilydd wrth i achosion leihau, a rôl hollbwysig timau gwybodaeth a diogelu iechyd lleol a rhanbarthol i ymateb i frigiadau o achosion ac achosion lluosog, yn hanfodol er mwyn osgoi cyfnod pellach o gyfyngiadau.

1 Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: fframwaith ar gyfer adferiad, Llywodraeth Cymru, 24 Ebrill 2020 www.llyw.cymru/arwain-cymru-allan-or-pandemig-coronafeirws

2 Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi: dal i drafod, Llywodraeth Cymru, 15 Mai 2020 www.llyw.cymru/llacio-cyfyngiadau-ar-ein-cymdeithas-heconomi-dal-i-drafod

3 Cynllun Rheoli'r Coronafeirws ar gyfer Cymru, 18 Awst 2020 www.llyw.cymru/cynllun-rheoli-r-coronafeirws-ar-gyfer-cymru

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddwyd y fersiwn gyntaf o'n *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd yng Nghymru*⁴ a oedd yn nodi'n fanylach sut y byddai'r mesurau cenedlaethol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd fwy rhagweladwy yn seiliedig ar fframwaith o bedair lefel rhybudd. Nod y dull hwn oedd rhoi mwy o sicrwydd i bobl a busnesau ynghylch pa gyfyngiadau cyfreithiol a roddir ar waith, yn dibynnu ar y lefel risg sylfaenol yng Nghymru a ffactorau allweddol eraill.

Roedd y dull lefelau rhybudd yn seiliedig ar gorff o dystiolaeth am yr hyn a oedd yn effeithiol i gyfyngu ar y coronafeirws yn y DU bryd hynny. Ers cyhoeddi'r cynllun, mae'r amrywiolyn newydd o'r coronafeirws, a nodwyd gyntaf yng Nghaint, wedi ymsefydlu fel y ffurf o'r feirws sydd fwyaf cyffredin yng Nghymru a'r DU. Mae'r amrywiolyn hwn yn llawer mwy heintus a throsglwyddadwy na'r fersiwn o'r feirws y lluniwyd y fframwaith lefelau rhybudd gwreiddiol i fynd i'r afael â hi.

Wrth i'r feirws newid ac addasu, rhaid i ninnau addasu hefyd. Ar lefel rhybudd 4, ein nod oedd cynnal dysgu wyneb yn wyneb mewn ysgolion. Serch hynny, mae'r amrywiolyn newydd wedi golygu nad yw hyn wedi bod yn bosibl a bu'n rhaid inni ymateb.

Mae'r ansicrwydd a'r ffaith ei bod yn anodd rhag-weld effaith llacio'r cyfyngiadau ar ledaeniad amrywiolyn Caint ar draws Cymru yn golygu ein bod wedi mabwysiadu dull mwy gofalus o godi'r cyfyngiadau presennol. Ym mis Chwefror 2021, gwnaethom ddiweddarau ein cynllun rheoli'r coronafeirws (*Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd yng Nghymru – Llacio'r cyfyngiadau'n raddol*⁵) a oedd yn nodi ein dealltwriaeth o effaith amrywiolynnau newydd a sut mae systemau Profi, Orlhain, Diogelu GIG Cymru a'n rhaglen frechu yn ymateb i'r heriau hyn.

Roedd yn disgrifio sut y byddwn yn llacio'r cyfyngiadau'n raddol, gan symud i lefel rhybudd 3 fesul cam, a monitro a gwerthuso effaith pob cam. Mae hyn yn cyd-fynd â chyngor Sefydliad Iechyd y Byd, y Gell Cyngor Technegol a'r Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) sydd i gyd yn argymhell llacio cyfnodau o gyfyngiadau yn ofalus.

Mae'r ddogfen ddiweddaraf hon yn diwygio'r lefelau rhybudd yn sgil y dystiolaeth newydd a nodir yn y *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws Llacio'r cyfyngiadau'n raddol*. Yn benodol, mae'n nodi'r angen inni fod yn fwy gofalus o gofio pa mor drosglwyddadwy yw amrywiolyn Caint ar hyn o bryd. Mae hefyd yn sôn am yr effaith y gobeithiwn i'r brechlynnau ei chael, ymhen amser. Bydd angen inni ailedrych ar y fframwaith hwn eto unwaith y bydd pob oedolyn cymwys wedi'i frechu – y dyddiad targed ar gyfer cynnig brechlynnau yw diwedd mis Gorffennaf. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried effaith brechiadau ac amrywiolynnau sy'n cylchredeg, ac ailasesu a oes angen unrhyw newidiadau i'r mesurau rheoli – a sut y byddwn yn symud rhwng lefelau rhybudd – yn ystod yr hydref a'r gaeaf i ddiogelu Cymru.

4 Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd yng Nghymru, Rhagfyr 2020
www.llyw.cymru/cynllun-rheoli-r-coronafeirws-lefelau-rhybudd-yng-nghymru

5 Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Llacio'r cyfyngiadau'n raddol
www.llyw.cymru/cynllun-rheoli-r-coronafeirws-lefelau-rhybudd-yng-nghymru-llacio-r-cyfyngiadau-n-raddol

Rydym yn awr, fodd bynnag, ar adeg dyngedfennol. Mae'r brechlyn yn cael ei gyflwyno yn gyflym, ond mae cyfran fawr o'r boblogaeth o hyd mewn perygl o salwch difrifol a marwolaeth, yn enwedig gan mai amrywiolyn Caint yw'r ffurf o'r feirws sydd fwyaf cyffredin yng Nghymru. Mae angen inni weithredu'n ofalus, wrth inni lacio cyfyngiadau, i ddiogelu iechyd pobl ac atal brigiadau mawr mewn heintiadau wrth i bobl barhau i gael eu brechu, hyd nes inni gyrraedd y pwynt lle mae'r brechlyn yn ychwanegu at yr hyblygrwydd sydd ar gael inni.

Brechiadau a chyfyngiadau

Cynlluniau brechu a cherrig milltir

Mae GIG Cymru bellach wedi darparu brechlynnau COVID-19 i fwy na miliwn o bobl yng Nghymru.

Mae canlyniadau cynnar yn y dystiolaeth o effeithiolrwydd y brechlynnau yn addawol o ran eu heffaith ar atal clefyd difrifol ac atal trosglwyddo. Mae ein *Strategaeth Frechu*⁶ yn nodi ein bod yn anelu at gynnig brechlyn i bawb yn y naw grŵp blaenoriaeth cyntaf erbyn canol mis Ebrill.

Ffigur 1: Ffeithlun o gerrig milltir brechu Cymru

Cyrhaeddwyd carreg filltir gyntaf ein strategaeth ar 12 Chwefror 2021, sef cynnig brechlyn i bawb yn y pedwar grŵp blaenoriaeth cyntaf:

- Pawb dros 70 oed
- Yr holl weithwyr iechedd a gofal cymdeithasol rheng flaen
- Pawb sy'n byw neu'n gweithio mewn cartrefi gofal pobl hŷn
- Pawb sy'n eithriadol agored i niwed yn glinigol

Ein nod yw cyrraedd yr ail garreg filltir erbyn canol mis Ebrill, sef cynnig brechlyn i bawb yng ngrwpiau blaenoriaeth 5-9, sef:

- Pawb rhwng 50 a 69 oed
- Pawb dros 16 oed sydd â chyflwr iechedd sy'n bodoli eisoes, sy'n golygu eu bod mewn mwy o berygl yn glinigol o salwch difrifol yn sgil COVID-19 – gan gynnwys rhai pobl ag anableddau dysgu a salwch meddwl difrifol
- Llauer o ofalwyr di-dâl amhrisiadwy sy'n gofalu am rywun sy'n agored i niwed yn glinigol yn sgil COVID-19

Rydym wrthi'n gweithio ar gynlluniau ar gyfer carreg filltir 3, sef cynnig brechlyn i weddill y boblogaeth oedolion erbyn diwedd mis Gorffennaf

⁶ Diweddariad strategaeth brechu COVID-19 Chwefror 2021
www.llyw.cymru/diweddariad-strategaeth-brechu-covid-19-chwefror-2021

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) yn argymhell mai atal marwolaethau COVID-19 a diogelu staff a systemau iechyd a gofal cymdeithasol ddylai fod y blaenoriaethau pennaf mewn unrhyw raglen frechu rhag COVID-19. Mae hyn yn bwysig i leihau nifer y bobl sydd naill ai'n marw neu angen triniaeth yn yr ysbyty yn sgil COVID-19.

Y cyfyngiadau symud a'r ffaith ein bod ni i gyd yn aros gartref ac yn osgoi cymysgu ag eraill sy'n bennaf gyfrifol am y gostyngiadau diweddar mewn achosion, derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau ledled Cymru, yn hytrach na chyflwyno'r brechlyn.

Wrth i ragor o bobl gael eu brechu – ac wrth i ragor o bobl dderbyn y ddau ddos – bydd hyn yn dechrau newid. Dylai'r brechlyn ddechrau lleihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty cyn bo hir a darparu rhywfaint o imiwnedd i nifer mawr o bobl, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i glefyd difrifol. Mae'r brechlyn yn helpu i ddiogelu unigolion rhag clefyd difrifol. Ar ben hynny, mae imiwnedd wedi'i feithrin yn y boblogaeth gan bobl sydd wedi cael COVID-19.

Hyd nes y byddwn wedi cyrraedd y pwynt hwn, mae angen inni symud yn bwylllog wrth inni lacio cyfyngiadau, gan symud o lefel 4 fesul cam i lefel rhybudd 3. Rhaid inni hefyd ystyried effeithiau syndrom ôl-COVID-19 – a elwir hefyd yn COVID hir.

Carreg filltir fawr nesaf ein rhaglen frechu yw cynnig dos cyntaf o'r brechlyn i bob oedolyn cymwys erbyn diwedd mis Gorffennaf. Ni fydd pawb yng Nghymru wedi'u brechu erbyn y pwynt hwnnw dan y cynlluniau presennol – nid yw brechlyn Prifysgol Rhydychen-AstraZeneca wedi'i drwyddedu ar gyfer y rhai dan 18 oed ac, er yn uchel, mae'r gyfradd o bobl a fydd yn dewis derbyn brechiad yn annhebygol o fod dros 80%. Mae'n cymryd rhai wythnosau i bobl gael eu diogelu gan y brechlyn, felly bydd yn ganol mis Awst o leiaf cyn y gwelwn y rhan fwyaf o oedolion wedi'u diogelu.

Bydd angen inni ddefnyddio'r system lefelau rhybudd dros y gwanwyn a'r haf, i gefnogi'r ymdrech frechu honno. Bydd y fframwaith lefelau rhybudd diwygiedig hwn yn gyfredol hyd nes inni gyrraedd ail garreg filltir fawr ein rhaglen frechu. Bryd hynny, bydd angen inni ailedrych ar ein dull gweithredu unwaith eto, gan adeiladu ar yr hyn y byddwn yn ei ddysgu dros y misoedd nesaf am effeithiolrwydd y brechlyn ac unrhyw ddatblygiadau newydd sy'n dod i'r amlwg. Gall hynny gynnwys yr angen am bigiad atgyfnerthu yn yr hydref ar gyfer rhai grwpiau o'r boblogaeth i ddiogelu rhag amrywiolynnau newydd.

Pam na allwn godi'r holl gyfyngiadau unwaith y byddwn wedi brechu'r rhai mwyaf agored i niwed?

Hyd nes y bydd y rhaglen frechu ymhellach ymlaen, bydd cyfran fawr o'r boblogaeth yn parhau i fod yn agored i haint. Mae gwaith modelu'n awgrymu bod hyder mawr yn y potensial ar gyfer nifer uchel iawn o heintiau os caiff cyfyngiadau eu codi'n gynnar neu'n gyflym. Byddai hynny'n arwain at nifer mawr o dderbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau oni bai bod y gyfran o bobl sydd wedi'i brechu yn uchel iawn⁷.

Nid oes yr un brechlyn yn berffaith. Bydd pob brechlyn yn rhoi gwahanol lefelau o amddiffyniad i bobl rhag clefyd difrifol; y siawns o gael eu heintio (gyda symptomau ai peidio) a siawns o heintio rhywun arall.

Er enghraifft, os cynigir y brechlyn i 100% o'r boblogaeth, sef 80% o'r boblogaeth (h.y. ac eithrio plant), bod 90% yn ei dderbyn, a bod y brechlyn yn effeithiol ar gyfer 80% o'r boblogaeth, yna bydd 58% o boblogaeth Cymru yn cael eu hamddiffyn. Wrth gyfuno hyn ag imiwnedd yn sgil heintiau blaenorol, bydd nifer mawr yn cael eu hamddiffyn, ond nid yw'n ddigon i atal rhagor o frigiadau sylweddol o achosion yn y boblogaeth. Os bydd y feirws yn parhau i gylchredeg yn ein cymunedau, bydd mwy o siawns y bydd amrywiolynnau newydd ohono yn datblygu.

Mae brigiadau mawr yn rhoi pwysau ar y GIG a gwasanaethau lleol eraill.

Rydym wedi blaenoriaethu'r brechlyn ar gyfer y bobl hynaf a'r rhai hynny sydd mewn mwyaf o berygl o gael salwch difrifol, gan gynnwys staff ieuchyd rheng flaen a staff gofal. Mae hyn yn golygu y bydd pobl ifanc, sy'n tueddu i fod â'r cyswllt cymdeithasol mwyaf, ymysg y grwpiau olaf i gael cynnig y brechlyn.

Yn 2020, roedd gan bobl yn eu harddegau hwyr, eu 20au a'u 30au lawer mwy o gysylltiadau cymdeithasol. Wrth inni iacio'r cyfyngiadau ac wrth i bobl ddechrau cymysgu eto, bydd mwy o gyfleoedd i COVID-19 ledaenu ymhlith y grwpiau hyn nes iddynt gael eu brechu. Er bod marwolaethau yn y grwpiau hyn yn brin, pobl dan 60 oed yw tua 25% o'r rhai sy'n mynd i'r ysbyty, ac mae 'COVID hir' (syndrom ôl-COVID-19) yn parhau i beri pryder.

Cyfyngiadau lefelau rhybudd wrth inni gynnig brechlynnau i'r rhai mwyaf agored i niwed erbyn canol mis Ebrill

Byddwn yn llacio cyfyngiadau yn ofalus wrth inni barhau i gynnig brechlynnau i grwpiau blaenoriaeth 5 i 9 rhwng nawr a chanol mis Ebrill. Rydym ar lefel rhybudd 4 ar hyn o bryd a byddwn yn symud yn raddol i lefel rhybudd 3. Ni fyddwn yn mynd y tu hwnt i hynny.

7 Cyfarfod 81 SAGE ar COVID-19, 18 Chwefror 2021
www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/963393/S1127_SAGE_81_Minutes.pdf

O ystyried y gwaith modelu a'r cyngor gan SAGE a'r Gell Cyngor Technegol, mae angen inni osgoi gweithgareddau sy'n trosglwyddo'r feirws am gyhyd â phosibl; yn ddelfrydol hyd nes y bydd mwy na 80% o oedolion wedi cael rhywfaint o amddiffyniad drwy'r brechlynnau.

Rydym yn dechrau llacio'r cyfyngiadau wrth inni barhau â'r broses o frechu'r grwpiau mwyaf agored i niwed. Os rhuthrwn i godi cyfyngiadau yn rhy fuan, mae perygl y bydd nifer yr achosion yn codi'n gyflym, yn enwedig gan mai amrywiolyn Caint sydd fwyaf cyffredin yng Nghymru.

Cynnydd mewn cymysgu, ynghyd â'r amrywiolyn newydd, yw'r ffactorau sydd y tu ôl i'r amcanestyniadau o drydedd don mewn rhai senarios modelu. Yn wir, y prif ffactorau a fydd yn pennu a fydd trydedd don sylweddol ai peidio yw i ba raddau y bydd pobl yn cadw at y cyfyngiadau a faint o gymysgu rhwng aelwydydd a ganiateir yn y rheolau.

Mae gan amrywiolyn Caint rif atgynhyrchu sylfaenol uwch, sef tua 4.5⁸. Mae hyn yn uwch nag un yr amrywiolyn "gwyllt" blaenorol, sef tua 3. Mae hyn yn golygu, pan gaiff cyfyngiadau eu codi, y bydd yr amrywiolyn newydd yn lledaenu hyd yn oed yn gyflymach, gan ei fod yn llawer mwy trosglwyddadwy. Mae data ar gyfer Cymru hefyd yn dangos bod gan yr amrywiolyn newydd gyfradd ymosodiadau eilaidd uwch. Mae hyn yn golygu y bydd person sy'n dod â haint i aelwyd yn ei lledaenu i lawer mwy o aelodau o'r aelwyd honno na phe bai ganddo'r amrywiolyn "gwyllt".

Mae data ar gyfer Cymru hefyd wedi dangos ei bod wedi cymryd mwy o amser i gyfradd drosglwyddo'r amrywiolyn newydd arafu ym mis Rhagfyr a mis Ionawr nag amrywiolynnau "gwyllt" blaenorol, er gwaethaf y cyfyngiadau a gyflwynwyd. Mae hyn yn golygu y bydd angen inni weithredu'n gyflymach os ydym am osgoi cyfnod hir arall o gyfyngiadau pe bai ton arall.

Felly, rydym yn y cam mwyaf peryglus yn y cyfnod hwn cyn y Pasg pan fyddwn yn dechrau llacio'r cyfyngiadau tra byddwn yn dal i frechu'r grwpiau mwyaf agored i niwed. Y mwyaf o bobl y gallwn eu brechu cyn inni gymysgu ag aelwydydd eraill (yn enwedig dan do), y lleiaf yw'r siawns y bydd trydedd don fawr (gyda phethau eraill yn gyfartal). Fel arfer pan fyddwn yn cyflwyno brechlynnau ar gyfer feirysau, byddwn yn ceisio gwneud hynny ar adegau ac mewn ardaloedd lle mae nifer isel o achosion. Mae hyn yn lleihau'r cyfle i'r feirws gystadlu â'r brechlyn, ac o bosibl i newid. Ar hyn o bryd, ni sydd â'r gyfradd isaf o achosion o holl wledydd y DU, ond mae angen iddi leihau ymhellach.

Dylem fod yn anelu at leihau lefel y feirws sy'n mynd ar led mewn cymunedau i lefelau tebyg i haf 2020, o ystyried y potensial i nifer yr heintiadau gynyddu'n gyflymach.

8 Crynodeb SPI-M-O o waith modelu pellach ynghylch llacio cyfyngiadau
www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/963565/S1130_SPI-M-O_Summary_of_further_modelling_of_easing_restrictions.pdf

Cyfyngiadau lefelau rhybudd wrth inni gynnig brechlyn i bob oedolyn cymwys erbyn diwedd mis Gorffennaf

Y garreg filltir fawr nesaf yn ein rhaglen frechu yw cynnig y brechlyn i bob oedolyn cymwys erbyn diwedd mis Gorffennaf. Mae'r data hyn yn dibynnu'n helaeth ar gyflenwad o'r brechlynnau a'r pellaf i ffwrdd yw'r targed, y lleiaf o sicrwydd sydd gennym am y cyflenwad.

Dair wythnos ar ôl gwneud hynny, os bydd nifer uchel wedi derbyn brechlyn effeithiol, mae'n bosibl y bydd hyn yn gallu gwneud llawer o'r gwaith sydd ei angen i leihau (a chynnal) R o dan 1, gan roi hyblygrwydd ychwanegol inni wneud mwy o newidiadau.

Erbyn hynny, byddwn yn gwybod llawer mwy am effeithiolrwydd y brechlyn, am unrhyw amrywiolynau newydd sy'n peri pryder, a byddwn yn gallu ailedrych ar ein dull gweithredu wrth inni gynllunio ffordd o'r cyfyngiadau. Rydym yn disgwyl i brofi, olrhain cysylltiadau, hunanynysu, a champau eraill – cadw pellter cymdeithasol, golchi dwylo – fod yn rhan o'n dull hirdymor o fyw gyda'r feirws hwn.

Wrth i frechlynnau gael eu cynnig i bob oedolyn cymwys, mae'n bwysig cofio nad pawb fydd yn gymwys am frechlyn ac na fydd pawb yn cymryd y cynnig. Hyd yn oed gyda'r imiwnedd y bydd rhai pobl wedi'i feithrin drwy haint, bydd rhai pobl a fydd yn gallu trosglwyddo'r feirws. Golyga hyn ei bod yn bosibl y bydd cannoedd o filoedd o bobl yng Nghymru nad ydynt yn cael eu "hamddiffyn" yn llawn gan y brechlyn ym mis Mehefin ac wythnosau cyntaf mis Gorffennaf. Bydd cyfleoedd sylweddol i COVID-19 heintio pobl ac achosi salwch.

Yn y cyfnod rhwng diwedd mis Ebrill a diwedd mis Gorffennaf byddwn yn cynnal y system lefelau rhybudd i ymateb i'r sefyllfa iechyd cyhoeddus wrth iddi newid. Gallai hyn olygu symud mewn camau unigol rhwng y lefelau, neu symud yn fwy graddol rhwng y lefelau os dyma'r ffordd fwyaf cymesur o addasu cyfyngiadau.

Teithio Rhyngwladol

Mae camau gweithredu y DU i atal mewnfario'r haint – yn enwedig amrywiolynau newydd – drwy deithio rhyngwladol hefyd yn bwysig.

I liniaru'r risgiau i iechyd y cyhoedd, mae cyfres o fesurau rheoli ar waith ar y ffiniau. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i deithwyr gyflwyno eu manylion personol a'u manylion teithio a thystiolaeth o brawf coronafeirws negatiff cyn teithio i'r DU. Hefyd, mae'n ofynnol i bob teithiwr fod mewn cwarantin am 10 diwrnod llawn ar ôl cyrraedd y DU a chymryd profion pellach yn ystod y cyfnod cwarantin hwnnw. Mae hyn yn sicrhau y gallwn ddilyniannu unrhyw

brofion positif i ddarganfod a oes unrhyw amrywiolynau sy'n peri pryder wedi'u mewnfario i'r DU.

Amrywiolynau newydd yw un o'r risgiau mwyaf o hyd i'n rhaglen frechu a'r bwriad i lacio'r cyfyngiadau. Os bydd amrywiolyn nad yw ein brechlynnau'n gweithio'n effeithiol yn ei erbyn yn ymsefydlu yn y DU, gallai'r GIG gael ei lethu'n sydyn gan bobl yn dioddef salwch difrifol o ganlyniad i amrywiolyn newydd, er eu bod wedi cael eu brechu.

Mae'r DU wedi cyflwyno "rhestr goch" o wledydd, lle ceir risgiau penodol yn sgil amrywiolynau sy'n peri pryder. Mae'n rhaid i bawb sy'n cyrraedd o wlad ar y rhestr goch fod mewn cwarantin mewn cyfleuster pwrpasol yn agos at y man lle gwnaethant gyrraedd y DU. Os bydd pobl yn cyrraedd o wledydd eraill, byddant mewn cwarantin gartref. Mae'r mesurau hyn yn helpu i atal mewnfario COVID-19 a chyflwyno amrywiolynau newydd i'r DU.

Rydym yn credu y dylai'r mesurau hyn gael eu cryfhau. Rydym yn barod i gynorthwyo Llywodraeth y DU i weithredu cwarantin wedi'i reoli ar gyfer pob teithiwr sy'n cyrraedd y DU ac i aildechrau teithio'n raddol lle'r ydym yn hyderus bod risgiau'n cael eu rheoli. Er yn anodd, dyma fyddai'r peth cywir i'w wneud i'n diogelu rhag amrywiolynau newydd a gwarchod y cynnydd y mae'r rhaglen frechu wedi'i wneud.

Bydd y rhan fwyaf o bobl sy'n ymweld â Chymru, neu'n dychwelyd adref i Gymru, yn gwneud hynny o feysydd awyr yn Lloegr (megis y rhai yn Llundain, Manceinion, Birmingham neu Fryste) yn ogystal â phyrth môr a phyrth rheilffyrdd. Felly, cyfyngedig iawn fyddai effaith mesurau cwarantin wedi'i reoli yng Nghymru yn unig gan na fyddent ar hyn o bryd ond yn berthnasol i nifer bach iawn o deithwyr sy'n cyrraedd Cymru drwy Faes Awyr Caerdydd, neu byrth mynediad eraill yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod ein rhyng-gysylltedd â Lloegr a bydd gennym yr un cyfyngiad ar deithio rhyngwladol nad yw'n hanfodol tan o leiaf 17 Mai. Efallai y bydd angen parhau i gyfyngu ar deithio rhyngwladol ar ôl y dyddiad hwnnw os bydd cyfraddau achosion yn dechrau cynyddu, naill ai yn y DU neu ledled y byd. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Alban a Gogledd Iwerddon ar sut i aildechrau teithio rhyngwladol yn y ffordd fwyaf diogel posibl.

Ond nid ydym am weld hanes yn ailadrodd ei hun. Cafodd ein hymdrechion llwyddiannus i gyfyngu ar y feirws yr haf diwethaf eu dadwneud yn rhannol wrth fewnfario'r feirws o'n gwyliau haf dramor. Nid ydym am weld yr un peth yn digwydd gydag amrywiolyn newydd.

Y broses

Dull gweithredu

Yn ystod y gwanwyn a'r haf, bydd yn bwysig ein bod yn gwneud popeth posibl i gadw achosion yn isel drwy ein hymdrechion ar y cyd. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle gorau i'n swyddogion olrhain cysylltiadau ddod o hyd i glystyrau a thorri cadwyni trosglwyddo. Bydd yn helpu ein gwyddonwyr i ddilyniannu mwy o samplau feirysol a chanfod amrywiolynnau newydd yn gynnar. Bydd yn helpu i leihau'r risg o frigiadau o achosion mewn cartrefi gofal ac ysbytai. Bydd hefyd yn helpu ein GIG i barhau i adfer a chanolbwyntio ar weithgarwch heblaw am COVID-19.

Bydd cadw achosion yn isel dros y gwanwyn a'r haf hefyd yn rhoi hyder inni ailagor Cymru yn ddiogel a chynnal ein rhaglen frechu.

Yn ein *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd yng Nghymru – Llacio'r cyfyngiadau'n raddol*, nodwyd y byddai angen inni weithredu'n ofalus a fesul cam. Y gweithgareddau sy'n peri risg uwch – sydd fel arfer yn cynnwys pobl yn cymysgu dan do – fydd rhai o'r newidiadau olaf a wnawn. Ni ddylem ond ystyried gwneud y pethau hynny pan fydd cyfran fawr o bobl wedi cael eu brechu'n llawn.

Mae'r rhan fwyaf o heintiadau'n digwydd pan fydd gweithgareddau sy'n arwain at gymysgu dan do rhwng aelwydydd yn cael eu cynnal. Gan fod amrywiolyn llawer mwy trosglwyddadwy yn cylchredeg, bydd un person heintiedig dan do yn heintio mwy o bobl ac yn haws.

Yn *Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: fframwaith ar gyfer adferiad a Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi: dal i drafod*, gwnaethom nodi sut y byddem yn ceisio cadw cydbwysedd rhwng y niwed uniongyrchol yn sgil COVID-19 a'r niwed anuniongyrchol yn sgil y cyfyngiadau sydd mewn grym. Mae hyn yn cynnwys cydbwyso niwed iechyd uniongyrchol â'r niwed i'n hiechyd meddwl, ein lles, ein heconomi a'n cymdeithas. I ddiogelu iechyd pobl, rydym wedi gorfod cyfyngu ar hawliau a rhyddid pobl. Dim ond am gyhyd ag y mae'r cyfyngiadau hynny'n parhau'n gymesur y byddwn yn gwneud hynny.

Rydym hefyd wedi'i gwneud yn glir mai addysg yw ein blaenoriaeth o hyd. Ysgolion, colegau, lleoliadau gofal plant a lleoliadau addysg eraill ddylai fod yr olaf i gau a'r cyntaf i agor pan fydd angen cyfyngiadau.


Casgliad o ddangosyddion

Rydym wedi diweddarau'r dangosyddion gafodd eu nodi yn y *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws*. Mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad A. Mae ein gwaith monitro a dehongli gofalus o'r casgliad hwn o ddangosyddion yn rhan o'r ffordd yr ydym yn gwneud penderfyniadau, gan ein helpu i lunio barn gytbwys ynghylch pa lefel rhybudd ddylai fod mewn grym. Rydym wedi cynnwys dangosyddion ychwanegol er mwyn adlewyrchu effaith brechiadau a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amrywiolynnau sy'n peri pryder. Mae'r meysydd newydd hyn yn ategu gwaith sydd eisoes ar waith i fonitro lledaeniad achosion, capasiti a gallu'r GIG, a marwolaethau.

Mae'r dull gweithredu hwn yn hyblyg yn ôl yr angen a bydd ein dangosyddion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diwygio pan fo angen, er enghraifft mewn ymateb i gynnydd mewn profion torfol, amrywiolynnau sy'n peri pryder, cyfraddau brechu a data ar effeithiolrwydd brechlynnau.

Ni fydd yr asesiad hwn o'r dangosyddion yn broses fecanistig; yn hytrach, bydd y casgliad o ddangosyddion yn cael ei ddadansoddi a'i asesu ochr yn ochr â chynghor arbenigol proffesiynol a gwybodaeth gan bartneriaid lleol.

Ffigur 2: Triongli gwybodaeth i lywio penderfyniadau



Bydd yn hanfodol defnyddio'r arbenigedd proffesiynol a'r wybodaeth leol i ddarparu cyd-destun, gan gyfuno'r cyd-destun hwnnw â'r data monitro dangosyddion a gwybodaeth o waith modelu a phrofiadau gwledydd eraill. Gall dod â'r rhain i gyd at ei gilydd helpu i nodi opsiynau ar gyfer gweithredu.

Er enghraifft, gallai cynnydd yn y cyfraddau achosion sydd i'w weld yn y data monitro fod dan reolaeth drwy gamau gweithredu lleol ac mae'n bosibl y byddai ymateb cenedlaethol yn anghymesur.

Sut y byddwn yn symud rhwng y lefelau

Pan fyddwn yn symud i lawr y lefelau rhybudd, byddwn yn rhoi mwy o sylw i ddangosyddion ôl-fynegi megis derbyniadau i'r ysbyty, capasiti'r GIG, derbyniadau i unedau gofal dwys a marwolaethau. Byddem hefyd yn disgwyl gweld mwy o sefydlogrwydd yn y ffigurau hyn dros gyfnod o oddeutu tair wythnos, fel y gallwn fod yn sicr bod gwelliannau wedi sefydlogi cyn inni wneud newidiadau.

Ni fyddwn yn symud i lawr y lefelau yn gyflymach nag un lefel ar y tro. Pan fo ansicrwydd sylweddol efallai y bydd angen inni symud rhwng y lefelau'n fwy graddol nag yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd i gyrraedd lefel 3.

Pan fyddwn yn penderfynu a ddylid symud i fyny'r lefelau (h.y. tynhau'r cyfyngiadau), byddwn yn canolbwyntio'n fwy ar ddangosyddion rhagfynegi megis niferoedd achosion neu gyfraddau positifedd. Bydd angen inni hefyd allu ymateb yn gyflymach wrth symud i fyny'r lefelau, er enghraifft os bydd newidiadau mewn dangosyddion dros gyfnod o wythnos, gan arwain at weithredu. Bydd rôl arbenigedd proffesiynol a gwybodaeth leol yn hanfodol er mwyn cadw cydbwysedd a sicrhau bod camau gweithredu yn parhau i fod yn gymesur.


Mae'r amrywiolyn newydd yn dangos pa mor gyflym y gall y sefyllfa waethgu. Pan fyddwn yn symud i fyny'r lefelau, mae'n bosibl y bydd angen symud mwy nag un lefel ar y tro.

Gwneud penderfyniadau

Bob dydd, caiff data a gwybodaeth eu hadolygu, a ddwywaith yr wythnos eu hystyried gan Gell Wybodaeth COVID a'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelu Iechyd (Is-grŵp Brigiadau o Achosion). Mae'r grwpiau hyn yn dwyn ynghyd weithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol o Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n gweithio ochr yn ochr â phartneriaid lleol. Mae'r grwpiau'n ystyried y data a'r wybodaeth ddiweddaraf o ffynonellau lluosog, gan gynnwys gan bartneriaid lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r dadansoddiad hwn yn llywio'r asesiad parhaus o lefelau risg a'r camau lliniaru cysylltiedig.

Cafodd y trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli'r coronafeirws yn gyffredinol eu nodi yn y *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws* (ffigur 3).

Ffigur 3: Llywodraethu Cynllun Rheoli'r Coronafeirws



Ffynhonnell: Cynllun Rheoli'r Coronafeirws ar gyfer Cymru (t.26), Llywodraeth Cymru, Awst 2020. Ar gael yn: www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/cynllun-rheolir-coronafeirws-ar-gyfer-cymru.pdf

Fel rhan o'n dull gweithredu wedi'i adnewyddu, byddwn yn cyhoeddi asesiad lefelau rhybudd wythnosol a fydd yn crynhoi'r dadansoddiad hwn i helpu'r cyhoedd i ddeall y cyd-destun iechyd presennol a'r trywydd mwyaf tebygol. Bydd yr asesiad hwn yn rhoi gwybod ymlaen llaw a allai gostwng lefel rhybudd fod yn bosibl yn y dyfodol os bydd amodau'n parhau i wella a sefydlogi. Bydd hefyd yn ein galluogi i roi gwybod i'r cyhoedd os bydd amodau'n dirywio, a phan allai fod angen cyfyngiadau ychwanegol os nad yw amodau'n gwella.

Bydd yr adolygiadau ffurfiol, statudol, o'r rheoliadau yn parhau bob tair wythnos, ond byddwn yn gweithredu'n gynharach os bydd y dystiolaeth yn awgrymu bod angen hynny.

Y camau nesaf

Cyrraedd lefel rhybudd 3

Fel y nodir yn y *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd yng Nghymru – Lacio'r cyfyngiadau'n raddol*, mae'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amrywiolyn Caint yn golygu nad ydym yn gwybod yn union beth fydd effaith llacio'r cyfyngiadau.

Byddai neidio mewn un cam o lefel rhybudd 4 i lefel rhybudd 3 ar hyn o bryd wedi peryglu'r gwelliant sylweddol yr ydym wedi'i sicrhau hyd yma a'n blaenoriaeth i weld ein plant, ein pobl ifanc a'n myfyrwyr yn mynd yn ôl i addysg wyneb yn wyneb. Byddwn, felly, yn symud yn raddol a fesul cam i lefel rhybudd 3.

Ffigur 4: Dull dangosol o gyrraedd lefel rhybudd 3

Cylch adolygu 12 Mawrth

O 13 Mawrth ymlaen:

- Parhau i ganiatáu i rai ddychwelyd i'r ysgol, coleg a dysgu seiliedig ar waith
- Newid y gofyniad aros gartref i ofyniad aros yn lleol
- Caniatáu rhywfaint o ymgynnull yn yr awyr agored ac ailagor cyrtiau chwaraeon awyr agored
- Gwasanaethau cysylltiad agos yn dechrau agor (siopau trin gwallt a siopau barbwr)

O 22 Mawrth ymlaen:

- Manwerthu nad yw'n hanfodol yn dechrau agor – codi'r cyfyngiadau ar werthu eitemau mewn siopau sydd ar agor ar hyn o bryd
- Canolfannau garddio yn ailagor

O 27 Mawrth ymlaen (os bydd yr amodau'n caniatáu):

- Dileu'r gofyniad i aros yn lleol
- Dechrau ailagor y sector twristiaeth wrth i lety hunangynhwysol agor
- Gweithgareddau awyr agored i blant yn agor
- Hawl gyfyngedig i agor ardaloedd awyr agored mewn mannau hanesyddol a gerddi
- Llyfrgelloedd yn ailagor

Cylch adolygu 1 Ebrill

O 12 Ebrill ymlaen (os bydd yr amodau'n caniatáu):

- Pob disgybl a myfyriwr i ddychwelyd i'r ysgol, coleg a lleoliadau addysg eraill
- Pob siop yn ailagor
- Gwasanaethau cysylltiad agos yn ailagor

Cylch adolygu 22 Ebrill

Bydd y meysydd canlynol yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad ar 22 Ebrill, os bydd y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn parhau'n gadarnhaol a'r cyfraddau brechu yn parhau i gynyddu:

Y camau sy'n weddill i symud i lefel rhybudd 3, gan gynnwys:

- Campfeydd a chyfleusterau hamdden a ffitrwydd
- Atyniadau awyr agored
- Lletygarwch awyr agored
- Priodasau
- Canolfannau cymunedol
- Gweithgareddau wedi'u trefnu (30 yn yr awyr agored, 15 dan do)
- Aelwydydd estynedig

Byddwn yn adolygu'r data a'r wybodaeth bob wythnos. Byddwn yn oedi cyn cyflwyno rhai elfennau, os bydd angen, i sicrhau bod y cynlluniau i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol yn cael eu diogelu. Os bydd angen inni wrthdroi unrhyw newidiadau, ein blaenoriaeth wrth wneud y penderfyniadau hyn fydd cadw disgyblion mewn ysgolion cyn belled ag y bo modd.

Y dull gweithredu unwaith y byddwn yn lefel rhybudd 3

Unwaith y byddwn wedi cyrraedd lefel rhybudd 3, mae'n bosibl y bydd modd inni symud i fyny ac i lawr y lefelau rhybudd mewn camau unigol. Bydd hyn yn dibynnu ar y rhaglen frechu ac ar effeithiolrwydd y brechlynnau. Bydd angen inni barhau i weithredu yn unol â'r dystiolaeth ddiweddaraf.

Ar y llaw arall, mae'n bosibl y bydd angen symud rhwng y lefelau rhybudd yn fwy graddol os bydd y rhagolygon yn dal yn ansicr. Er enghraifft, os bydd amrywiolyn newydd sy'n peri pryder yn cylchredeg yn y DU neu os bydd imiwnedd drwy frechlynnau yn dechrau gwanhau, byddem yn parhau i roi blaenoriaeth i lacio'r gweithgareddau risg is yn gyntaf, megis mwy o weithgareddau awyr agored.

Mae'r system lefelau rhybudd yn ein galluogi i symud i lefel uwch ar unwaith, heb orfod symud fesul lefel yn ei thro, er enghraifft i gyfyngu ar gynnydd cyflym mewn achosion ac osgoi cyfnodau hir o gyfyngiadau llymach.

Byddwn hefyd yn parhau i fonitro amrywiadau lleol a rhanbarthol. Rydym yn gobeithio gallu parhau i weithredu ar sail Cymru gyfan i gadw pethau'n symlach ac osgoi dryswch. Ond bydd ein system yn ein galluogi i symud i lefel uwch neu is yn lleol neu'n rhanbarthol os dyma fyddai'r dull gweithredu mwyaf effeithiol a chymesur.

Diweddaru'r lefelau

Un set o reoliadau a darpariaethau cyffredin

Rydym wedi rhoi un set o reoliadau ar waith i gwmpasu'r prif ymyriadau ym mhob un o'r lefelau rhybudd gwahanol. Bydd y rhain yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau a nodir isod.

Bydd cyfres o ddarpariaethau cyffredin yn parhau i fod yn berthnasol i bob lefel rhybudd. Gallwn ddisgwyl y bydd angen llawer o'r rhain hyd y gellir rhag-weld, hyd yn oed wrth i'r brechlyn gael ei gyflwyno wrth inni ailagor ein heconomi a'n cymdeithas:

- Gofyniad i hunanynysu os cewch brawf positif, os bydd tîm Profi, Orlhain, Diogelu yn cysylltu â chi, neu pan fyddwch yn dychwelyd o wlad sy'n peri pryder.
- Gofyniad i safleoedd gynnal asesiadau risg coronafeirws a chymryd camau ataliol megis casglu manylion cyswllt.
- Gofynion i wisgo gorchudd wyneb mewn mannau a sefyllfaoedd penodol.

Ynghyd â'r rheoliadau a'r darpariaethau, ceir pwerau gorfodi sy'n cefnogi'r ymateb a'r ffordd o reoli clystyrau neu heintiadau sy'n gysylltiedig â lleoliadau neu weithgareddau penodol sef Hysbysiadau Gwella Mangre, Hysbysiadau Cau Mangre a dyroddi Cyfarwyddydau.

Mae'r tabl yn Atodiad B yn crynhoi'r cyfyngiadau rheoleiddiol penodol a fydd ar waith ym mhob lefel rhybudd.

Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud?

Roedd y newidiadau i lefel rhybudd 4 yn angenrheidiol ym mis Rhagfyr a mis Ionawr er mwyn ymateb i amrywiolyn Caint. Roedd hyn yn cynnwys y potensial i symud dysgu i fod ar-lein pan fo angen, ond hefyd i adlewyrchu'r newidiadau i ymarfer corff a swigod cefnogaeth.

Mae dau newid cyffredinol i'r lefelau rhybudd o ganlyniad i'r newidiadau yn y tymhorau, cyfradd drosglwyddo amrywiolyn Caint, ac adolygiad o'r dystiolaeth. Mae'r newidiadau'n ymwneud â'n hagwedd at gyfyngiadau pan fydd y gweithgarwch yn digwydd yn yr awyr agored, a rôl y cyfyngiadau'n ymwneud â safleoedd sy'n gwerthu alcohol.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y risg yn yr awyr agored yn isel iawn o gymharu â'r risg dan do, cyhyd â bod pobl yn cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr ac yn dilyn camau lliniaru eraill. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys pa mor aml y bydd pobl yn cwrdd mewn grwpiau mawr, y nifer sy'n bresennol, y tebygolrwydd y bydd pobl heintus yn bresennol, a yw'r rhai sy'n bresennol yn canu neu'n gweiddi a pha mor agos ydynt at ei gilydd.⁹ Mae hyn wedi ein harwain i barhau i flaenoriaethu gweithgarwch yn yr awyr agored ym mhob lefel, hyd yn oed wrth inni orfod ymateb i gyfradd drosglwyddo uwch yr amrywiolyn newydd.

Mae cyfradd drosglwyddo lawer uwch amrywiolyn Caint yn golygu bod unrhyw gymysgu dan do hyd yn oed yn fwy peryglus. Felly, bydd angen inni aros nes y bydd cyfraddau'n isel iawn a brechlynnau wedi'u darparu i fwy o'r boblogaeth cyn caniatáu cymysgu dan do.

Cafodd y cyfyngiadau 10pm yn y sector lletygarwch, a gwerthu alcohol, eu cyflwyno rhwng y pedair gwlad i ymateb i gynnydd mewn achosion yn yr hydref. Mae'r dull a fabwysiadwyd ledled y DU wedi'i roi ar waith yn eang ledled Ewrop a'r tu hwnt hefyd. Ei nod oedd ymateb i faterion a nodwyd ar lawr gwlad ynglŷn â diffyg cydymffurfio â'r rheolau ac anawsterau o ran eu gorfodi. Rydym yn cydnabod y rhyng-gysylltedd rhwng Cymru a Lloegr ac rydym wedi ceisio cysoni ein rheolau lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer cyfyngiadau ar y sector lletygarwch.

Gall cyfyngiadau gwahanol mewn meysydd o'r fath achosi dryswch ac annog pobl i deithio ar draws y DU yn ddiangen. Cafodd ein cyfyngiadau 10pm eu cyflwyno i sicrhau cysondeb – gan na fydd y rhain mewn grym yn Lloegr mwyach¹⁰, byddwn yn dileu'r rhain wrth inni symud i lefel rhybudd 3. Mae hyn yn cydnabod yr angen i gadw ein rheolau mor syml a chyson â phosibl.

Byddwn hefyd yn mabwysiadu'r un dull wrth agor y sector lletygarwch, yn seiliedig ar ganiatáu i bob safle lletygarwch ailagor yn yr awyr agored yn lefel rhybudd 3. Bydd y rheolau ar ymgynnull dan do yn parhau i fod yn berthnasol wrth agor y sector yn llawn yn lefel rhybudd 2 ac is. Bydd disgwyl i bob safle barhau i gasglu manylion cyswllt, cynnal asesiad risg coronafeirws, cyfyngu ar niferoedd dan do, darparu gwasanaeth gweini wrth y bwrdd yn unig, awyru mannau dan do, sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol a mesurau lliniaru eraill. Byddwn yn dileu'r gofyniad ar gyfer slotiau amser cyfyngedig. Fel ein holl gyfyngiadau, bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn ymateb i'r dystiolaeth ddiweddaraf, gan gynnwys gan ein gweithwyr ieuchyd proffesiynol ar lawr gwlad.

9 TWEG: Tystiolaeth o drosglwyddiad amgylcheddol ehangach SARS-CoV-2 – 12 Mehefin 2020 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/899611/s0546-tweg-evidence-wider-environmental-transmission-200612.pdf

10 Ymateb i COVID-19 – Gwanwyn 2021 www.gov.uk/government/publications/COVID-19-response-spring-2021

Atodiad A: Dangosyddion lefelau rhybudd COVID

Trosglwyddo, digwyddedd a mynychder

Gwyliadwriaeth a gwybodaeth gyflym – ar gyfer symud i lefelau rhybudd uwch

Beth yw'r gyfradd trosglwyddiadau yn y gymuned, gweithleoedd, cartrefi gofal, carchardai ac ysbytai? A yw cyfraddau'n cynyddu?

Cyfradd yr achosion a gadarnhawyd fesul 100,000 o bobl dros gyfnod treigl cyfartalog o saith diwrnod (yn dibynnu ar brofion, rheoli brigiadau lleol a'r graddau y mae'r feirws yn trosglwyddo yn y gymuned). Yr isaf yw'r gyfradd achosion, yr isaf yw'r risg y bydd y feirws yn mwtadu oherwydd cystadleuaeth gan y brechlyn.

Cyfraddau achosion a gadarnhawyd ar gyfer pob grŵp oedran neu boblogaeth (e.e. myfyriwr, digartref) a dealltwriaeth o achosion, achosion lluosog a brigiadau (gweler y cwestiwn nesaf).

Positifedd profion dros saith diwrnod (gall y strategaeth brofi ddylanwadu ar hyn).

Mae amcangyfrif o'r rhif Atgynhyrchu, yn seiliedig ar brofion positif COVID-19 neu dderbyniadau i'r ysbyty, yn llai nag un.

A oes dealltwriaeth o'r clystyrau, yr achosion lluosog a'r brigiadau a nodwyd?

Tystiolaeth gan weithwyr iechyd proffesiynol lleol (gan gynnwys unrhyw dystiolaeth gan dimau rheoli achosion neu dimau rheoli brigiadau).

Tystiolaeth gan awdurdodau lleol neu bartneriaid lleol.

Dangosyddion ôl-fynegi a dangosyddion rhagfynegi ychwanegol – ar gyfer symud i lawr y lefelau rhybudd

Beth yw'r gyfradd trosglwyddiadau yn y gymuned, gweithleoedd, cartrefi gofal, carchardai ac ysbytai?

Arolwg Heintiau COVID y Swyddfa Ystadegau Gwladol – amcangyfrifon mynychder cymunedol.

Sut beth fydd y gyfradd trosglwyddiadau wrth symud ymlaen?

Amcanestyniadau o achosion a chyfraddau digwyddedd er mwyn osgoi cynnydd sylweddol.

Amcangyfrif consensws (gan ddefnyddio nifer o ffynonellau data) o'r rhif Atgynhyrchu

A yw'r clystyrau, yr achosion lluosog a'r brigiadau a nodwyd dan reolaeth?

Gwyliadwriaeth a gwybodaeth gyflym.

Capasiti'r GIG**Gwiliadwriaeth a gwybodaeth gyflym –
ar gyfer symud i lefelau rhybudd uwch****A yw nifer y gwelyau llawn mewn ysbytai ac unedau gofal
dwys ar lefelau y gellir eu rheoli?**

Gwelyau llawn mewn ysbytai gydag achosion o COVID-19 wedi'u
cadarnhau

Gwelyau llawn mewn ysbytai yn gyffredinol

Derbyniadau i'r ysbyty

Gwelyau gofal critigol llawn gydag achosion o COVID-19 wedi'u
cadarnhau

Gwelyau gofal critigol llawn yn gyffredinol

Absenoldeb staff y GIG oherwydd salwch

Gwybodaeth am les staff y GIG

Y Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) sydd ar gael

**A yw nifer y derbyniadau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn
cynyddu'n gyflym?**

Derbyniadau COVID-19 i'r ysbyty

Lefelau asesu CRITCON sy'n diffinio capasiti Unedau Gofal Dwys
mewn argyfwng

**Dangosyddion ôl-fynegi a dangosyddion rhagfynegi
ychwanegol – ar gyfer symud i lawr y lefelau rhybudd****A yw nifer y gwelyau llawn mewn ysbytai ac unedau gofal
dwys ar lefelau y gellir eu rheoli?**

Gwiliadwriaeth a gwybodaeth gyflym

**A oes digon o gapasiti mewn ysbytai ar gyfer brigiadau yn y
dyfodol?**

Amcanestyniadau o dderbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau
dros y ddwy i chwe wythnos nesaf.

	Gwyliadwriaeth a gwybodaeth gyflym – ar gyfer symud i lefelau rhybudd uwch	Dangosyddion ôl-fynegi a dangosyddion rhagfynegi ychwanegol – ar gyfer symud i lawr y lefelau rhybudd
Marwolaethau	A yw'r cyfraddau marwolaeth yn sgil COVID-19 yn cynyddu? Amcangyfrifon Iechyd Cyhoeddus Cymru o farwolaethau COVID-19 Hysbysiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o farwolaethau	A yw'r cyfraddau marwolaeth yn sgil COVID-19 yn cynyddu? Amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol o farwolaethau Amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol o farwolaethau mewn Cartrefi Gofal
Amrywiolynnu	Pa amrywiolynnu sydd yng Nghymru ar hyn o bryd ac a oes unrhyw dystiolaeth o amrywiolynnu sy'n effeithio ar frechlynnau presennol? Tystiolaeth am amrywiolynnu sy'n bresennol yng Nghymru, a'u heffaith ar lefel trosglwyddiad a chanlyniadau iechyd Ystyried a allai unrhyw amrywiolynnu dan archwiliad neu amrywiolynnu sy'n peri pryder effeithio ar ba mor effeithiol yw'r brechlyn Canran yr amrywiolynnu na ellid eu cysylltu â theithio (yn cael eu datblygu)	
Imiwnedd a Brechlynnau	Sut y bydd cyflwyno'r brechlyn yn effeithio ar drosglwyddiad, derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau? Nifer y bobl sydd wedi'u brechu: dos cyntaf, ail ddos ac unrhyw ddosau atgyfnerthu Effeithiolrwydd y brechlyn o ran amddiffyn unigolion, gan gynnwys ailheintio Y cwmpas brechu (faint sy'n cael eu brechu)	Pa gyfran o'r boblogaeth sydd â rhywfaint o amddiffyniad rhag COVID-19, naill ai drwy haint flaenorol neu frechiad? Amcangyfrif o ganran y boblogaeth sydd wedi profi'n bositif am wrthgyrff Y gyfradd haint a marwolaeth

Caiff hyn ei ategu gan ddadansoddiad ychwanegol sy'n ystyried y sefyllfa ledled y DU ac yn rhyngwladol.

Atodiad B: Tabl cryno o'r cyfyngiadau ar bob lefel rhybudd (wedi'i ddiweddarau ar 14eg Mai 2021)

Mae'r tabl hwn yn rhoi crynodeb o'r cyfyngiadau rheoleiddiol penodol a fydd yn eu lle ar bob lefel rhybudd. Y tu hwnt i'r cyfyngiadau hyn, dylai pobl a busnesau weithredu mewn ffordd sy'n gyson â'r risg sy'n gysylltiedig â phob lefel rhybudd. Mae lefel rhybudd uwch yn dynodi risg uwch drwy lefelau trosglwyddo uwch yn y gymuned. Ym mhob cam, dylai pawb feddwl am sut y gallant leihau'r risg hyd yn oed yn fwy.

	Lefel rhybudd 1 (Risg isel) 	Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig) 	Lefel rhybudd 3 (Risg uchel) 	Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn) 
Cyfyngiadau ar gynulliadau				
Aros gartref	Amh.	Amh.	Amh.	Ie
Cyfarfod mewn anheddau preifat (gan gynnwys llety i ymwelwyr pan fyddant ar agor)	Y rheol chwech o bobl, ac eithrio plant dan 11 oed neu aelwyd estynedig	Aelwyd estynedig a swigen gefnogaeth yn unig	Aelwyd estynedig a swigen gefnogaeth yn unig	Aelwyd (pobl rydych chi'n byw gyda nhw) neu swigen gefnogaeth yn unig
Cyfarfod dan do (safle rheoleiddiedig fel caffi yn unig)	Y rheol chwech o bobl, ac eithrio plant dan 11 oed	Y rheol chwech o bobl, ac eithrio plant dan 11 oed	Aelwyd neu swigen gefnogaeth yn unig	Aelwyd neu swigen gefnogaeth yn unig
Aelwydydd estynedig (swigod unigryw o'r un bobl)	Hyd at dair aelwyd a swigen gefnogaeth (oedolion sengl, rhieni sengl, aelwyd o bobl ifanc 16 ac 17 oed gydag unrhyw aelwyd arall)	Hyd at ddwy aelwyd a swigen gefnogaeth (oedolion sengl, rhieni sengl, aelwyd o bobl ifanc 16 ac 17 oed gydag unrhyw aelwyd arall)	Hyd at ddwy aelwyd a swigen gefnogaeth (oedolion sengl, rhieni sengl, aelwyd o bobl ifanc 16 ac 17 oed gydag unrhyw aelwyd arall)	Swigen gefnogaeth os ydych yn oedolyn sengl, yn rhiant sengl neu'n aelwyd o bobl ifanc 16-17 oed

	Lefel rhybudd 1 (Risg isel) 	Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig) 	Lefel rhybudd 3 (Risg uchel) 	Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn) 
Cyfarfod yn yr awyr agored	Dim mwy na 30 o bobl, ac eithrio plant dan 11 oed a gofalwyr	Y rheol chwech o bobl, ac eithrio plant dan 11 oed Aelwyd estynedig (os oes mwy na chwech) mewn mannau cyhoeddus awyr agored ond nid lleoliadau rheoleiddiedig	Y rheol chwech o bobl, ac eithrio plant dan 11 oed Aelwyd estynedig (os oes mwy na chwech) mewn mannau cyhoeddus awyr agored ond nid lleoliadau rheoleiddiedig	Aelwyd neu swigen gefnogaeth yn unig
Gerddi preifat	Y rheol chwech o bobl, ac eithrio plant dan 11 oed	Y rheol chwech o bobl, ac eithrio plant dan 11 oed	Y rheol chwech o bobl, ac eithrio plant dan 11 oed (neu aelwyd estynedig os oes mwy na chwech o bobl)	Aelwyd neu swigen gefnogaeth
Gweithgareddau a chwaraeon wedi'u trefnu				
Gweithgareddau dan do wedi'u trefnu	Hyd at 50 o bobl	Hyd at 30 o bobl	Hyd at 15 o bobl (wedi'u cyfyngu gan safleoedd wedi cau)	Wedi'u cyfyngu i wasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol
Gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu	Hyd at 100 o bobl	Hyd at 50 o bobl	Hyd at 30 o bobl	Ddim yn bosibl
Stadia a digwyddiadau	Digwyddiadau dan do ac awyr agored (niferoedd cyfyngedig)	Digwyddiadau peilot Stadia ar agor ar gyfer cynlluniau peilot	Digwyddiadau peilot bach yn yr awyr agored Stadia ar gau i wylwyr	Dim digwyddiadau Stadia ar gau i wylwyr

	Lefel rhybudd 1 (Risg isel) 	Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig) 	Lefel rhybudd 3 (Risg uchel) 	Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn) 
Chwaraeon ac ymarfer corff	Pob un yn cael ei ganiatáu yn unol â chanllawiau a mesurau lliniaru (e.e. chwaraeon cyswllt dan do cyfyngedig) Caniateir chwaraeon a hyfforddiant proffesiynol, elitaidd a dynodedig	Cyfyngedig i reolau gweithgareddau wedi'u trefnu (30 dan do, 50 yn yr awyr agored), eithriadau ar gyfer gweithgareddau plant Caniateir chwaraeon a hyfforddiant proffesiynol, elitaidd a dynodedig	Cyfyngedig i reolau gweithgareddau wedi'u trefnu (15 dan do, 30 yn yr awyr agored), eithriadau ar gyfer gweithgareddau plant Caniateir chwaraeon a hyfforddiant proffesiynol, elitaidd a dynodedig	Ymarfer corff awyr agored gyda'ch aelwyd, swigen gefnogaeth, neu un person arall gan gadw pellter cymdeithasol Caniateir chwaraeon a hyfforddiant proffesiynol, elitaidd a dynodedig
Gweithgareddau plant dan oruchwyliaeth	Caniateir	Caniateir	Caniateir	Ddim yn bosibl (mae eithriadau addysg a gofal plant yn parhau)
Busnesau a gwasanaethau				
Safleoedd manwerthu nad ydynt yn hanfodol	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar gau (caniateir gwasanaeth clicio a chasglu)
Gwasanaethau cyswllt agos (trinwyr gwallt, salonau ewinedd a harddwch, parlyrau tatŵs a thyfino, etc.)	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar gau (ac eithrio gwasanaethau meddygol a gwasanaethau cysylltiedig)

	Lefel rhybudd 1 (Risg isel) 	Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig) 	Lefel rhybudd 3 (Risg uchel) 	Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn) 
Lletygarwch (tafarndai, bwytaï, caffis, bariau, clybiau aelodau) <i>Gwasanaeth gweini wrth y bwrdd, mesurau lliniaru eraill fel casglu manylion cyswllt</i>	Ar agor	Ar agor	Yn yr awyr agored yn unig	Ar gau (ac eithrio ar gyfer tecawê a gwasanaeth cludo)
Llety gwyliau	Ar agor	Ar agor	Hunangynhwysol yn unig	Hanfodol yn unig (am resymau gwaith neu resymau eraill)
Gweithio yng nghartref rhywun	Ar agor, gyda mesurau lliniaru rhywun	Ar agor, gyda mesurau lliniaru	Ar agor, gyda mesurau lliniaru	Dim ond os nad oes dewis ymarferol rhesymol arall
Lleoliadau adloniant (sinemâu, neuaddau bingo, aliau bowlïo, canolfannau ac ardaloedd chwarae dan do, casinos, arcedau difyrion, theatrau a neuaddau cyngerdd)	Ar agor	Ar agor	Ar gau	Ar gau
Atyniadau ymwelwyr dan do (gan gynnwys amgueddfeydd, orielau, atyniadau addysgol a threftadaeth, a safleoedd treftadaeth fel plastai)	Ar agor	Ar agor	Ar gau	Ar gau

	Lefel rhybudd 1 (Risg isel) 	Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig) 	Lefel rhybudd 3 (Risg uchel) 	Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn) 
Rinciau sglefrio iâ (defnydd hamdden cyhoeddus)	Ar agor	Ar gau	Ar gau	Ar gau
Atyniadau awyr agored a mannau awyr agored mewn atyniadau (gan gynnwys parciau hanesyddol, gerddi, mannau gyrru i mewn, amgueddfeydd awyr agored, atyniadau fferm, swau)	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar gau
Ffeiriau a pharciau antur	Ar agor	Ar agor	Yn yr awyr agored yn unig	Ar gau
Cyfleusterau hamdden a ffitrwydd (campfeydd, pyllau nofio, spas, stiwdios ffitrwydd)	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar gau
Lleoliadau ar gyfer digwyddiadau a chynadleddau	Ar agor	Ar agor ar gyfer gweithgareddau cyfyngedig (e.e. cynlluniau peilot ar gyfer digwyddiadau dan do)	Ar gau	Ar gau
Clybiau nos a lleoliadau adloniant hwyr y nos	Ar gau ac eithrio digwyddiadau peilot	Ar gau	Ar gau	Ar gau

	Lefel rhybudd 1 (Risg isel) 	Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig) 	Lefel rhybudd 3 (Risg uchel) 	Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn) 
Cyfleusterau cymunedol				
Mannau addoli	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar agor
Cyfleusterau cymunedol	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar agor gyda chyfyngiadau (e.e. ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hanfodol)
Amlosgfeydd	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar agor
Llyfrgelloedd	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar gau i'r cyhoedd (gwasanaeth clicio a chasglu yn unig)
Cyrtiau chwaraeon, cyrsiau golff, caeau caeedig	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar gau
Meysydd chwarae, parciau cyhoeddus	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar agor

	Lefel rhybudd 1 (Risg isel) 	Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig) 	Lefel rhybudd 3 (Risg uchel) 	Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn) 
Digwyddiadau bywyd				
Priodasau (gan gynnwys rhai dyneiddiol), partneriaethau sifil ac angladdau <i>Mae cyfyngiadau lletygarwch yn berthnasol</i>	Seremoni – terfyn wedi'i bennu gan y lleoliad Derbyniad / Te angladd – Terfynau gweithgareddau wedi'u trefnu (50 dan do, 100 yn yr awyr agored)	Seremoni – terfyn wedi'i bennu gan y lleoliad Derbyniad / Te angladd – Terfynau gweithgareddau wedi'u trefnu (30 dan do, 50 yn yr awyr agored)	Seremoni – terfyn wedi'i bennu gan y lleoliad Derbyniad / Te angladd – Terfynau gweithgareddau wedi'u trefnu (15 dan do, 30 yn yr awyr agored)	Seremoni – terfyn wedi'i bennu gan y lleoliad Derbyniad / Te angladd – Ni chaniateir
Digwyddiadau bywyd eraill (gan gynnwys bar mitzvahs, bedydd, ac eraill) <i>Mae cyfyngiadau lletygarwch yn berthnasol</i>	Seremoni (os yw'n berthnasol) – wedi'i bennu gan y lleoliad Dathliad – Terfynau gweithgareddau wedi'u trefnu (50 dan do, 100 yn yr awyr agored)	Seremoni (os yw'n berthnasol) – wedi'i bennu gan y lleoliad Dathliad – Terfynau gweithgareddau wedi'u trefnu (30 dan do, 50 yn yr awyr agored)	Seremoni (os yw'n berthnasol) – wedi'i bennu gan y lleoliad Dathliad – Terfynau gweithgareddau wedi'u trefnu (15 dan do, 30 yn yr awyr agored)	Seremoni (os yw mewn addoldy) – gyda chyfyngiadau Dathliad – Ni chaniateir
Gwersi a phroffion gyrru	Gweithredu gyda mesurau lliniaru	Gweithredu gyda mesurau lliniaru	Gweithredu gyda mesurau lliniaru	Wedi'u hatal

	Lefel rhybudd 1 (Risg isel) 	Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig) 	Lefel rhybudd 3 (Risg uchel) 	Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn) 
Teithio				
O fewn y DU a'r Ardal Deithio Gyffredin	Dim teithio i/o ardaloedd lle mae risg uchel, heb esgus rhesymol	Dim teithio i/o ardaloedd lle mae risg uchel, heb esgus rhesymol	Dim teithio i/o ardaloedd lle mae risg uchel, heb esgus rhesymol Canllawiau yn erbyn teithio i ardaloedd risg is mewn rhannau eraill o'r DU a'r Ardal Deithio Gyffredin	Aros gartref oni bai bod esgus rhesymol Dim teithio i mewn neu allan o'r ardal heb esgus rhesymol
Rhyngwladol	Caniateir teithio rhyngwladol, gyda mesurau lliniaru (e.e. cydymffurfio â rheolau cwarantîn a pholisïau rheoli ffiniau)	Caniateir teithio rhyngwladol, gyda mesurau lliniaru (e.e. cydymffurfio â rheolau cwarantîn a pholisïau rheoli ffiniau)	Dim teithio rhyngwladol nad yw'n hanfodol (rhaid cael esgus rhesymol)	Dim teithio rhyngwladol nad yw'n hanfodol (rhaid cael esgus rhesymol)
Ysgolion a Gofal Plant <i>rhagofalon ychwanegol wrth symud i fyny'r lefelau, megis defnyddio gorchuddion wyneb</i>				
Darparwyr gofal plant	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar agor
Gofal plant anffurfiol	Caniateir	Caniateir	Caniateir	Caniateir (ond dylai fod yn hanfodol yn unig)

	Lefel rhybudd 1 (Risg isel) 	Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig) 	Lefel rhybudd 3 (Risg uchel) 	Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn) 
Ysgolion cynradd	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Dysgu wyneb yn wyneb i bawb os yw'n bosibl a bob amser i blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol Dysgu cyfunol bob amser ar gael a chyflwyno disgyblion yn ôl yn raddol pan fo'n bosibl.
Ysgolion uwchradd	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Dysgu wyneb yn wyneb i bawb os yw'n bosibl a bob amser i blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol Dysgu cyfunol bob amser ar gael a chyflwyno disgyblion yn ôl yn raddol pan fo'n bosibl.
Colegau, sefydliadau Addysg Bellach	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar agor ar gyfer dysgwyr "trwydded i ymarfer" a phob dysgwr ag arholiadau neu asesiadau sy'n gofyn am fod yn bresennol ar y safle Dysgu cyfunol i ddysgwyr eraill, grwpiau blaenoriaeth i ddychwelyd yn raddol pan fo'n bosibl.

	Lefel rhybudd 1 (Risg isel) 	Lefel rhybudd 2 (Risg ganolig) 	Lefel rhybudd 3 (Risg uchel) 	Lefel rhybudd 4 (Risg uchel iawn) 
Sefydliadau Addysg Uwch	Ar agor (mwy o weithredu wyneb yn wyneb)	Ar agor (cymysgedd o ddysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell; llai o weithgarwch wyneb yn wyneb)	Ar agor (cymysgedd o ddysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell; llai o weithgarwch wyneb yn wyneb)	Ar agor – cymysgedd o ddysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell. Gweithgarwch wyneb yn wyneb wedi'i leihau'n sylweddol.
Unedau Cyfeirio Disgyblion, Ysgolion Arbennig ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol	Ar agor	Ar agor	Ar agor	Ar agor lle bo modd